# CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2013 -17
















CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**
Uned Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-bost: cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679 661

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Hawis Jones ar 01286 679 661**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# Mynegai

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| Cyflwyniad yr Arweinydd | 04 |
| Proffil o Wynedd | 05 |
| Adolygu'r Cynllun | 07 |
| Gweledigaeth y Cynllun | 09 |
| Amcanion Gwella | 10 |
| **Plant a Phobl Ifanc** | 11 |
| **Gofal** | 18 |
| **Diogelu** | 24 |
| **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai** | 28 |
| **Y Gymraeg** | 36 |
| **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon** | 40 |
| **Cynllunio Ariannol** | 45 |
| Cyflawni'r Cynllun | 47 |

Ceir hyd i'r mesurau yn atodiad 1, sydd yn cyfeillio'r ddogfen hon.

# Cyflwyniad yr Arweinydd

Yn dilyn ein trefn arferol, rydym unwaith eto eleni yn adolygu ein Cynllun Strategol ac yn ei addasu yn unol ag unrhyw anghenion newydd neu newid yn yr amglychiadau. Fel canlyniad, mae rhai prosiectau bellach yn cael eu hepgor o'r cynllun gan eu bod wedi ei cwblhau ac eraill (dau) yn cael eu cynnwys o'r newydd yn sgil yr angen i ni roi sylw i faterion yn ymwneud a chapasiti y gyfundrefn gofal ac iechyd a'r cyfle i ni uchafu'r maes digwyddiadau proffil uchel o fewn y sir.

Dyma flwyddyn olaf ein Cynllun Strategol presennol a'r pwyslais bellach ar sicrhau ein bod yn cwblhau'r cyfan o'r prosiectau yn y cynllun, yn unol â'n haddewidion. Rydym wedi ceisio cynnal ein huchelgais i greu ein Gwynedd yfory, er gwaethaf yr amgylchiadau a'r toriadau llym, parhaus mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu. Ein gweithredu ni, heddiw, sydd am sicrhau Gwynedd ffyniannus, gynaliadwy a chyffrous ar gyfer yfory a'r genhedlaeth sydd am ein dilyn. Mae gennym gyfrifoldeb i edrych tu hwnt i'r gorwel a cheisio creu'r amodau cywir i sicrhau llwyddiant. Nid yw yfory am fod yr un peth â heddiw a gallwn sicrhau dyfodol ble mae ein gwerthoedd yn parhau, ond mewn cyd-destun newydd.

Mae ein profiadau ar y daith barhaol i gyflawni ac i ail-ddyfeisio ein hunain, yn cadarnhau y bydd llwyddiant yn bosibl wrth weithio mewn partneriaeth gydag eraill, boed o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi ein gweld fel Cyngor yn pwysleisio rôl ein cymunedau wrth gynllunio ein dyfodol. Yng nghanol y wasgfa ariannol, mae cyfle gennym i ddod at ein gilydd er mwyn cyflawni rhywbeth cadarnhaol a chreu ein Gwynedd Newydd, ein Gwynedd Yfory.



Dyfed Edwards **Arweinydd y Cyngor**

# Proffil o Wynedd




Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 122,273 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.




Ers 2011, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 0.6% (750 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 0.9% yng Nghymru.

Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.




Yn 2015-16, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £367 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 16,000 o ddisgyblion, cynnal 2,888 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

Mae 95 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.




Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 12 Canolfan Hamdden o fewn y sir ac 17 o Lyfrgelloedd, ynghyd á 11 Cartref Preswyl pobl hŷn.

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2014, daeth oddeutu 6.9 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £975 miliwn mewn refeniw.




Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.




Yn 2015, roedd canolrif incwm cartref yng Ngwynedd (£22,458) yn 8% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,271) ac 28% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£28,696).

Canolrif incwm cartref

Pris canolrif tŷ




Yn 2015, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £145,000 sydd yn gynnydd o 9.8% o'i gymharu â 2011.

Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 12.5% erbyn 2036. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 14.6%.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau drwy ymweld â'r wefan - www.gwynedd.gov.uk

# Adolygu'r Cynllun

Cafodd y Cynllun Strategol gwreiddiol ar gyfer 2013-17 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mai 2013.

Pwrpas adolygu'r cynllun eleni oedd edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl tair blynedd o weithredu'r cynllun strategol, yn ogystal â gwneud yn siwr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn am flwyddyn olaf y cynllun. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar lesiant bobl Gwynedd i'r dyfodol. Rhoddwyd sylw hefyd i flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, sef: Pobl Hŷn, Adeiladu Teuluoedd Cryf, a Chymunedau Cynaliadwy/Adfywio Cymunedau.

Wrth adolygu'r cynllun, fe wnaethon ni hefyd ganfod barn trigolion Gwynedd ynglþn â'r her sydd wedi ei gosod inni fel Cyngor i barhau i wneud ein gorau dros bobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod gennym lai o gyllid nag erioed a bod y galw am ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu. Er mwyn deall mwy am beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd, ymgynghorwyd ar y gwasanaethau hynny y byddai modd eu torri, a'r rhai lle na fyddai modd eu torri. Paratowyd holiadur ar-lein a gwahoddwyd pobl Gwynedd i fynychu un o'r gyfres o sesiynau galw heibio a fforymau cyhoeddus i roi eu barn. Cynhaliwyd cyfarfodydd penodol hefyd gyda grwpiau o bobl â nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Ymatebodd dros 2,000 o drigolion Gwynedd, a chafodd yr ymatebion eu dadansoddi er mwyn gweld y ganran a bleidleisiodd i beidio â gwireddu toriadau penodol a'r drefn rancio sy'n deillio o hynny. Rydym hefyd wedi gallu gweld y ranc a roddwyd i'r cynigion fesul nodwedd yr ymatebwyr, e.e. merched, dynion, pobl hþn a phobl anabl, yn ogystal â fesul ardal ddaearyddol. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r sesiynau hynny wrth adolygu'r cynllun.

Gyda chyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru 2016-17 fis Rhagfyr 2015, cafodd negeseuon eu cyfleu yn y wasg bod y setliad ariannol yn well nag yr oeddem wedi ei ragweld. Fodd bynnag, gan fod ein cynllunio ariannol wedi bod yn realistig, roedd ein darogan yng Ngwynedd mewn gwirionedd yn agos iawn at yr hyn a gafwyd yn y setliad. Ochr yn ochr â hyn, mae costau yn parhau i gynyddu oherwydd chwyddiant a phwysau ychwanegol ar wasanaethau. Ar y sail hynny, mae ein cynlluniau ar gyfer darganfod arbedion yn parhau, a manylir ar hyn yn yr adran ar Gynllunio Ariannol.

Rydym hefyd wedi bod yn ystyried ein hamcanion gwella a gwaith dydd i ddydd y Cyngor yng nghyd-destun nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn adolygu hyn rydym yn ei wneud yn barhaus er mwyn sicrhau fod llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol yn rhan ganolog i'r ffordd rydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

## Meysydd

Roedd ein hadolygiad yn dangos inni fod angen i'r meysydd rydym yn canolbwyntio arnynt aros yr un peth ar gyfer Cynllun Strategol 2016-17.

## Prosiectau

Ers y llynedd, mae pedwar prosiect wedi dod i ben oherwydd eu bod wedi cyflawni yr hyn roeddem wedi ei addo. Nodir y rhain a'u meysydd isod:

Ysgol Bro Llifon (Plant a Phobl Ifanc)
Strategaeth Letya Pobl Hyn (Gofal)
Cytundeb Canlyniadau (Cyngor Effeithiol ac Effeithlon)
Toriadau (Cynllunio Ariannol)

Ychwanegwyd dau brosiect newydd, sef:
Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd (Gofal)
Digwyddiadau proffil uchel a strategol (Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai)

## Mesurau

Mae ein mesurau hefyd wedi eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r pwyslais rydym yn ei roi ar wella amgylchiadau pobl Gwynedd.

# Gweledigaeth y Cynllun

## Y gorau i bobl Gwynedd

## mewn cyfnod anodd

Ein gweledigaeth yn y cynllun hwn yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaetha'r ffaith bod y Cyngor yn gorfod gwneud penderfyniadau ar ba wasanaethau I'w torri er mwyn cyfarch y bwlch ariannol sy'n ein hwynebu. Mae'r cynllun yn ddilyniant naturiol o Gynllun Strategol 2015-16, a bydd ei bwyslais yn parhau i fod ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd. Fe fyddwn yn gwneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

Heb gynllun fel hwn i gyfarch y sefyllfa, a pharatoi ar gyfer llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol, mae'n bosib y bydd gwasanaethau allweddol yn peidio â bod.

Mae'r cynllun eleni wedi ei lunio mewn cyfnod o baratoi at tua £5miliwn o doriadau dros y ddwy flynedd nesaf, ac felly bu'n rhaid ystyried y cyd-destun hwnnw. Er gwaethaf y ffaith fod y rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn parhau yn ddu, mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o wynebu'r her ariannol, a gweithio yn ddi-flino i wella ein gwasanaethau er mwyn parhau i gynnig y gorau i bobl Gwynedd er gwaetha'r amgylchiadau. Mae hyn yn golygu gwneud penderfyniadau anodd megis lleihau ar rai gwasanaethau a chynyddu treth y Cyngor er mwyn gallu trawsnewid a chynnal gwasanaethau eraill.

Bydd unrhyw benderfyniadau ariannol yn rhoi sylw gofalus i'n gallu i gyflawni yr hyn rydym wedi ei addo yn y cynllun hwn.

Trefnir y cynllun yn ôl ein meysydd blaenoriaeth fel a nodir isod, ac mae'r hamcanion gwella sy'n dilyn yn amlygu'r materion y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros gyfnod y cynllun.

**Plant a Phobl Ifanc**
**Gofal**
**Diogelu**
**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**
**Y Gymraeg**
**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**
**Cynllunio Ariannol**

# Amcanion Gwella

Rhestrir yma grynodeb o'n **hamcanion gwella**. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y materion y byddwn yn rhoi sylw pennaf iddynt dros gyfnod y cynllun. Rydym wedi pennu 16 o amcanion gwella, gyda'r cyntaf, sef 'Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud' yn arwain y cyfan:

## Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

AG1 Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

## Plant a Phobl Ifanc

AG2 Gwella ansawdd addysg
AG3 Creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol
AG4 Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
AG5 Gwella gwasanaethau ataliol i blant a phobl ifanc bregus

## Gofal

AG6 Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal
AG7 Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion
AG8 Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd â'r ffordd newydd o weithio
AG9 Gwella darpariaeth llety a gofal ar gyfer oedolion bregus

## Diogelu

AG10 Gwella trefniadau diogelu'r Cyngor

## Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

AG11 Gwella ansawdd swyddi a lefelau cyflog
AG12 Cryfhau cryfder a chadernid busnesau a chadw'r budd yn yr economi leol
AG13 Cryfhau'r economi wledig
AG14 Cydymdrechu yn erbyn tlodi

## Y Gymraeg

AG15 Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd

## Cynllunio Ariannol

AG16 Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol

Bydd yr amcanion gwella hyn yn cael eu gwireddu drwy gyfrwng y prosiectau sydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun hwn.

# Plant a Phobl Ifanc

Mae dechrau cyfnod bywyd pob un ohonom yn allweddol inni ar gyfer gosod sylfaen ar gyfer gweddill ein bywydau, ac mae'r egwyddor o wneud yn siwr fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr un safon dda o addysg yn un bwysig.

Wrth inni ddatblygu trefniadau addysg Gwynedd, mae hefyd yn hanfodol ein bod yn cynnig yr amgylchedd dysgu gorau i'n holl blant, pobl ifanc a staff. Mae'n flaenoriaeth i sicrhau bod y dysgwyr mwyaf bregus yn profi llwyddiant, a bod plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hasesu yn gynnar a chywir ac yn cael cyfleoedd addysgu o'r ansawdd cywir. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid inni ganolbwyntio ar sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysg rydym yn ei gynnig i holl blant a phobl ifanc y sir, lle bynnag y bônt yn byw.

Mae hefyd angen ystyried buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar a darparu'r math cywir o wasanaeth. O wneud hyn yn llwyddiannus, bydd modd lleihau'r galw am wasanaethau statudol a galluogi plant a phobl ifanc i fyw yn fwy annibynnol.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle bydd ansawdd addysg yn fwy cyson ar draws ysgolion y sir, ac y bydd trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni'u potensial. Rydym hefyd angen gwneud yn siwr bod ein cynlluniau ataliol yn fwy cynaliadwy a'n bod yn canolbwyntio ymdrechion yn y llefydd iawn.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y flwyddyn nesaf:

### P1 Gwella a chysoni safonau addysg

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu yn lleol. Byddwn yn gweithredu camau ymarferol yn yr ysgolion er mwyn gwella a chysoni safonau addysg. Byddwn yn targedu pynciau penodol, ac yn herio perfformiad mewn meysydd penodol.

Yn ystod 2015-16, lluniwyd Strategaeth Ansawdd Addysg sy'n gosod cyfeiriad a chamau gweithredol i wella a chysoni safonau addysg.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cyflwyno model newydd o gefnogi ysgolion a fydd yn cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol, datblygu partneriaethau newydd, gwella deilliannau cyfnod allweddol, yn ogystal â chefnogi ysgolion i berfformio yn y chwarteli uchaf
- Adolygu strwythurau'r Adran Addysg trwy greu strwythur ardal newydd a diffinio rôl 'Swyddog Addysg Ardal' er mwyn cydlynu'n well y gefnogaeth i'r ysgolion a'r holl wasanaeth cefnogol

- Gweithredu manyleb glir rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) a fydd yn sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle i fonitro ac arfarnu cynnydd yn yr ysgolion
- Gweithio gyda GwE i sicrhau codi safonau Saesneg a Mathemateg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion uwchradd
- Datblygu a gweithredu system dracio a thargedu effeithiol, ynghyd a gwell safon addysgu a dysgu mewn pynciau megis Saesneg a Mathemateg yn benodol. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at gynyddu nifer y disgyblion fydd yn ennill trothwy Lefel 2+ (5 gradd A* -C TGAU) neu gyfatebol
- Targedu gwelliant mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn gyffredinol neu yn perfformio yn gyfforddus
- Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion.

Cost: Dim cost ychwanegol

## P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

Yn ystod 2015-16, comisiynwyd adroddiad i faes arweinyddiaeth ysgolion yng Ngwynedd. Byddwn yn gweithredu ar argymhellion yr adroddiad hwnnw yn ystod 2016-17. Rydym hefyd wedi cynnal rhaglen benodol o weithdai datblygu arweinyddiaeth.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd gwell ansawdd o ran arweinyddiaeth o fewn ysgolion Gwynedd a bydd strwythur gyrfa gliriach yn ei le ar gyfer athrawon. Bydd hyn yn allweddol os am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa o safonau mwy cyson yn ein hysgolion, gan y bydd effaith arweinyddiaeth gref yn cael effaith positif ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Gweithredu cynllun datblygu arweinyddiaeth sy'n gwella amodau arweinyddiaeth ysgolion yng Ngwynedd
- Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio
- Sicrhau trefniadau lle bo'r awdurdod a chyrff llywodraethu yn ymyrryd ynghynt mewn ysgolion ble mae arweinyddiaeth yn peri pryder
- Sicrhau strwythur rheolaeth gydweithredol ar lefel dalgylch ac ardal a fydd yn rhyddhau amser i benaethiaid arwain yn effeithiol
- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol

Cost: Dim cost ychwanegol

**Rhaglen rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol**

Pwrpas y rhaglen hon yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd ei chyflawni yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc. Mae angen hefyd cynllunio a modelu ar gyfer strwythur i'r dyfodol gan roi sylw penodol ar gynllunio ar gyfer y trothwy nesaf o brosiectau cyfalaf y Llywodraeth.

Manylir ar brosiectau'r rhaglen isod:

### P3 Ysgol Hafod Lon

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor yn dilyn y penderfyniad i gau'r adeilad Ysgol Hafod Lon bresennol.

Bydd lle i 100 o ddisgyblion yn yr ysgol newydd, ynghyd â darpariaeth breswyl ac egwyl fer. Bydd y datblygiad newydd yn creu darpariaeth fodern yn cynnwys adnoddau newydd a phwrpasol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, gan wella cyfleoedd a phrofiadau plant, ac o ganlyniad safon eu haddysg. Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys dosbarthiadau modern, pwll hydrotherapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd, ardaloedd addas tu allan ar gyfer chwarae a dysgu, yn ogystal â gardd a chaffi lle caiff y plant hþn ddatblygu eu sgiliau mentergarwch. Bydd y cyfleusterau diweddaraf yma yn gwella profiadau plant sydd yn eu mynychu yn ogystal â'r teuluoedd.

Yn ystod 2015-16, cwblhawyd a chyflwynwyd achos busnes llawn i Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad o £6.5miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Rydym hefyd wedi gallu cwblhau'r holl brosesau statudol angenrheidiol yn ôl yr amserlen.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cychwyn a chwblhau'r gwaith sy'n gysylltiedig â symud Ysgol Hafod Lon a Thþ Aran i Benrhyndeudraeth a sefydlu'r uned breswyl newydd
- Cwblhau'r gwaith adeiladu arfaethedig ym Mhenrhyndeudraeth sydd yn werth £13 miliwn ac agor yr ysgol newydd (yn nhymor yr hydref 2016)

Cost: Dim cost ychwanegol

### P4 Dalgylch y Gader

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.

Bydd y cynnig hwn yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, rhannu adnoddau a gwella a chysoni ansawdd yr addysg ar draws y dalgylch. Golyga hefyd fuddsoddiad cyfalaf sylweddol o £4.3 miliwn i wella'r amgylchedd dysgu ar safleoedd penodol yn y dalgylch. Mae'r achos busnes llawn ar gyfer y prosiect wedi ei gymeradwyo.

Bydd yr ysgol ddilynol newydd yn agor ym mis Medi 2017.

Yn 2015-16, llwyddwyd i gwblhau'r prosesau statudol, cychwyn y gwaith adeiladu ar safle Rhydymain, ac mae'r Corff Llywodraethol Cysgodol bellach wedi ei sefydlu. Yn dilyn proses o hysbysebu ar gyfer y swydd Pennaeth Strategol yr ysgol ddilynol, penodwyd y Pennaeth yn Ionawr 2016 a rhagwelir y bydd yn medru dechrau yn y swydd ar ôl gwyliau'r Pasg 2016.

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Dechrau'r broses o gyd-lynu gwariant ôl-groniad cynnal a chadw safleoedd Friog, Y Gader a Dinas Mawddwy
- Bydd rhan helaeth o'r gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £4.34 miliwn ar safleoedd Rhydymain, Llanelltyd a Cynradd Dolgellau wedi ei gwblhau ar gyfer agor yr Ysgol newydd yn Medi 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P5 Ysgol Glancegin

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad o'r newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor. Nid yw amgylchedd dysgu'r ysgol yn addas, gan fod yr adeiladau presennol wedi cyrraedd diwedd eu hoes, ac mae eu cyflwr yn wael iawn.

Bydd y cynllun newydd yma yn sicrhau gofod modern a phwrpasol er mwyn gwella amodau i athrawon a phlant. Bwriedir yn ogystal ymchwilio i'r posibiliadau a datblygu canolfan integredig ar gyfer plant a theuluoedd ger safle'r ysgol newydd. Bydd y ganolfan hon yn dwyn ynghyd rai o'r gwasanaethau hynny sy'n cefnogi plant a theuluoedd ar Stad Maesgeirchen, a rhoi sylw penodol i wasanaethau blynyddoedd cynnar a rhai sy'n ataliol eu natur.

Bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2017.

Yn 2015-16, cymeradwywyd yr achos busnes llawn gan Lywodraeth Cymru gyda phecyn ariannol o £5.11 miliwn yn ei le i alluogi gwireddu'r cynllun.

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £5.11 miliwn
- Paratoi achos busnes llawn er mwyn datblygu canolfan integredig i blant a theuluoedd ar safle ger yr ysgol newydd ar stad Maesgeirchen (nid yw'r prosiect oddi mewn i sgôp y gwariant cyfalaf £5.11 miliwn).

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P6 Dalgylch y Berwyn

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Bydd y Campws yn adnodd cymunedol o'r radd flaenaf i'r ardal, ac yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Bydd y cynnig yn arwain at fuddsoddiad o £10.27m yn nhref y Bala, gan wella yn sylweddol yr amgylchedd dysgu i blant yr ardal. Yn ogystal, bydd y campws yn cynnwys adnoddau cymunedol fel llyfrgell a darpariaeth gelfyddydol, ac adnoddau ychwanegol i wella'r ddarpariaeth chwaraeon.

Bydd y campws yn agor fis Medi 2018.

Yn ystod 2015-16, cwblhawyd y cam olaf o gyflwyno'r achos busnes i Lywodraeth Cymru sydd wedi sicrhau £10.27 miliwn ar gyfer gwireddu'r prosiect. Mae'r holl brosesau statudol wedi'u cwblhau, ac mae'r broses cynllunio wedi cychwyn.

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Bwrw ymlaen gyda'r broses o sefydlu corff llywodraethol cysgodol y campws dysgu arfaethedig, a chychwyn gwaith y corff o benodi pennaeth a chwblhau'r strwythur staffio
- Cychwyn ar y gwaith adeiladu ar safle presennol Ysgol y Berwyn

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P7 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nod y prosiect yw sicrhau bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn mwy o gefnogaeth ar gyfer manteisio ar gyfleoedd ac ennill profiadau sydd wedi'u cynllunio yn effeithiol ar eu cyfer, fel eu bod yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu.

Yn 2015-16, paratowyd y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Mae egwyddorion y strategaeth yn cynnwys y bwriad i roi mwy o sylw i'r blynyddoedd cynnar, sefydlu tîm canolog integredig o bobl proffesiynol arbenigeddau penodol a gweithredu rhaglen hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Mabwysiadu Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a rhoi trefniadau mewn lle i'w gweithredu, gan gyflawni gwell deilliannau i blant a phobl ifanc am gost sylweddol lai
- Ail strwythuro a modelu'r gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Sefydlu tîm integredig i gydlynu'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer y ddarpariaeth gynhwysiad/gynnal ymddygiad
- Llunio a gweithredu rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr (gan gynnwys pecynnau e-ddysgu)
- Adolygu meini prawf Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P8 Ymyrraeth Gynnar ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd

Pwrpas y prosiect yma yw gosod cyfeiriad a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer agenda ataliol yng Ngwynedd, gan weithio yn aml asiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion yn gwneud y pethau cywir yn y llefydd cywir. Bydd y prosiect yn sicrhau ymyrraeth gynnar ac yn pwysleisio bod y gefnogaeth briodol yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir. Y bwriad yma yw sicrhau bod rhaglen glir o wasanaethau ataliol ar gael i bobl ifanc Gwynedd, a bod honno yn rhaglen sydd â pherchnogaeth traws-sector, yn cynnwys y trydydd sector.

Mae'r cyd-destun polisi ar lefel cenedlaethol hefyd yn pwysleisio'r angen am raglen ataliol. Mae angen paratoi ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a'r ymateb i'r gofynion asesu, cynghori a chynnig cymorth i deuluoedd ar draws y sbectrwm angen.

Yn ystod 2015-16, rydym wedi cynnal awdit ac adnabod y bylchau o ran gweithgareddau/ rhaglenni yn y maes ymyrraeth gynnar, ac wedi dadansoddi anghenion grwpiau bregus o deuluoedd.

Wrth fuddsoddi mewn gwaith ataliol/ ymyrraeth gynnar, yn y dyfodol, bydd llai o deuluoedd a phlant yn cael eu cyfeirio at ymyraethau cost uchel o fewn y gwasanaethau statudol. Bydd deilliannau positif i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd oherwydd bydd modd iddynt fyw yn annibynnol a bydd deilliannau busnes i'r gwasanaethau cyhoeddus gan y bydd modd darparu gwasanaethau ar gost lai.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Ail-ystyried a blaenoriaethu adnoddau rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd ar gyfer 2016-17 a chynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf
- Cryfhau model Tîm o Amgylch y Teulu gan adeiladu ar y gwaith o gydlynu'r gefnogaeth i grwpiau bregus o deuluoedd
- Mabwysiadu'r Strategaeth Ymyrraeth Gynnar a'i rhoi ar waith
- Ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy sicrhau fod ein prosesau gwaith yn cyfateb a'r disgwyliadau statudol o ymateb i gyfeiriadau
- Gweithredu fframwaith ymgysylltu'r Llywodraeth, sy'n rhoi sylw i grwpiau bregus o blant a phobl ifanc

Cost: Dim cost ychwanegol.

| **Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd?** |
|---|
| Lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn cynyddu ar draws y sir.<br><br>Llais a barn pobl ifanc yn gryf wrth lunio darpariaeth.<br><br>Rhieni yn teimlo bod eu barn yn cyfrif. |

# Gofal

Rydym wedi gwybod ers tro fod y boblogaeth pobl hŷn yng Ngwynedd yn cynyddu. Dangosodd cyfrifiad 2011 y rhagwelir twf yn ein poblogaeth dros 85 o 3,875 yn 2015 i 4,110 erbyn 2017 a 6,832 erbyn 2032. Wrth inni fyw yn hŷn, mae ein hanghenion yn newid gydag amser ac yn aml, fe all hyn olygu fod ar bobl angen gwasanaethau gofal a gwasanaethau iechyd ar yr un adeg.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod cyfrifoldebau newydd ar y Cyngor, ac yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i foderneiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n nodi newid sylweddol yn y ffordd mae gwasanaethau allweddol llywodraeth leol yn cael eu darparu, ac mae pedair egwyddor sylfaenol:

1) Pobl – rhoi pobl a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, rhoi llais iddynt a rheolaeth dros eu canlyniadau bywyd
2) Llesiant – cefnogi pobl i gyrraedd at y cyflwr llesiant gorau y gallant, a mesur llwyddiant hyn
3) Ymyrraeth gynt – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned er mwyn lleihau anghenion mwy dwys rhag codi
4) Cydweithio – asiantaethau a sefydliadau yn gweithio'n gryf mewn partneriaeth â'i gilydd

Ochr yn ochr â hyn, mae adnoddau'r Cyngor yn prinhau, sydd wedi golygu fod angen inni ganfod arbedion. Mae pobl hefyd yn dweud wrthym eu bod yn awyddus i barhau i fyw yn eu cartrefi ac i fod yn rhan o'u cymunedau.

Rydym angen ymateb i hyn drwy wneud yn siwr fod pobl Gwynedd yn ymwybodol o'r her sydd yn ein hwynebu a gweithio tuag at ffyrdd newydd a gwahanol o ddarparu gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn, mae dau beth allweddol rydym angen eu wneud, sef yn gyntaf, gwneud yn siwr fod gennym staff sydd yn barod ar gyfer yr her, ac yn ail, gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau iechyd er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn medru ymateb i anghenion pob unigolyn.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle y bydd gan bobl Gwynedd ymwybyddiaeth dda o'r sialens sy'n wynebu'r maes gofal, ac y bydd gan staff yr hyder i gwrdd â'r ffordd newydd o weithio. Ffordd fydd hon a fydd yn addas i gwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac a fydd yn gwneud yn siwr fod mwy o bobl yn byw eu bywydau yn unol â'u dewis. Fe fydd angen i'r gwasanaethau sydd ar gael gyfarfod â'r gofynion fydd yn codi, a bydd angen gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector a chymunedau er mwyn i hynny ddigwydd. Fe fydd hefyd angen ystod o ymyraethau cynnar ac ataliol er mwyn gallu canolbwyntio ein gwasanaethau ar yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y flwyddyn nesaf, ac fe fydd cyflawni prosiectau G1, G2 a G3 isod yn cyfrannu at ein gallu i gwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:

## G1 Her gofal

Pwrpas y prosiect hwn yw ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Fe fydd llwyddiant y prosiect yn allweddol o ran gwaith ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor, ynghyd â'n partneriaid yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid ac yn cwrdd â'r gofyn o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Ar ddiwedd y prosiect, bydd gan bobl Gwynedd ddealltwriaeth o'r maes a fydd yn golygu ein bod yn cyfrannu ac yn cefnogi'n naturiol y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Yn ystod 2015-16, llwyddwyd i ddatblygu 'stori' yr Her Gofal, sef y cefndir, y cyd-destun â'r rheswm dros newid. Yn ychwanegol, datblygwyd rhaglen o ddigwyddiadau, cyfathrebwyd stori gyda rhan ddeiliaid, ymgysylltwyd gyda rhan ddeiliaid, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i drafod yr her.

Erbyn Mawrth 2017 byddwn wedi:

- Gweithredu yn bellach y strategaeth gyfathrebu
- Parhau i weithio hefo cymunedau i adnabod eu cryfderau a'r agweddau sydd angen eu datblygu, gyda'r bwriad o ysgogi diddordeb mewn gweithredu cymunedol i ymateb i'r her gofal ac i faterion llesiant eu cymunedau
- Parhau gyda'r gwaith o godi ymwybyddiaeth cyffredinol pobl Gwynedd a'i ddatblygu'n bellach fel mae adborth cymunedau yn cael ei dderbyn

Cost: Bydd y prosiect yn cael ei ariannu o adnoddau sydd eisoes wedi eu clustnodi ar gyfer y maes gofal.

## G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion

Er mwyn ymateb i heriau amlwg y maes mae'n allweddol ein bod yn gweithio'n effeithiol, a hynny lle'n briodol, yn integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pwrpas y prosiect hwn yw ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn benodol yng nghyswllt y prosiect yma) yn gwbl ganolog yn ein ffordd o weithio.

Yn ystod 2015-16, profwyd llwyddiant o weithio'n integredig drwy sefydlu tîm integredig yn ardal Eifionydd. Mae'r tîm hwn wedi sefydlu'r egwyddorion o ran ffordd o weithio a threialu y dulliau newydd am y tro cyntaf. Maent hefyd wedi arbrofi gyda dulliau o fesur effaith y gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth. Y bwriad yw bod y ffordd yma o weithio yn sylfaen ar gyfer y model gwasanaethu newydd cwbl integredig ar draws gwasanaethau oedolion. Bydd timau dilynol yn gallu mabwysiadu'r ffordd o weithio sydd wedi ei chychwyn yn ardal Eifionydd ac felly yn gallu gweithredu'r dull newydd ynghynt.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd gennym wasanaethau sydd yn gallu cwrdd â'r hyn sy'n cyfri i unigolion yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib, gan sicrhau hefyd nad ydym yn sugno unigolion i fod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol heb fod angen. Mae gwneud hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae'n anodd rhoi amcangyfrif amser penodol ar gyfer y newid yn ei gyfanrwydd oherwydd natur y prosiect sydd yn newid diwylliant ffordd o weithio, yn ogystal â strwythur. Oherwydd hyn, a'r ffaith bod y newid hwn yn golygu gweithio yn agos gyda chorff cyhoeddus arall, megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'n debygol y bydd yn 2020 cyn y gallwn fod yn gwbl hyderus y bydd y newid diwylliant wedi ei ymgorffori yn llwyr o fewn ffordd o weithio pawb.

Gallwn er hyn gynnwys rhai cerrig milltir; bydd disgwyl i'r prosiect gyflawni'r canlynol erbyn Mawrth 2017:

- Sefydlu'r trefniadau gweithio yn gadarn a sicrhau eglurder pendant ynglŷn â sut y byddwn yn mesur effaith ein gwaith
- Cytuno ar yr amserlen prif ffrydio'r ffordd newydd o weithio drwy Wynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol)
- Penderfynu'n bendant os yw'r ffordd yma o weithio yn addas ar gyfer meysydd anableddau dysgu ac iechyd meddwl, ac os yw'n addas beth fyddai'r amserlen ar gyfer dod â'r ffordd newydd o weithio i'r gwasanaethau hyn

Cost: Dim cost ychwanegol.

### G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol ym meddylfryd a diwylliant yr adran fel ag yr amlinellir uchod, mae'n hanfodol fod gennym strwythur staffio addas i bwrpas yn yr adran i gefnogi hyn ar gyfer y dyfodol. Nid oedd y strwythur fel ag yr oedd yn addas, ac felly mae'n anorfod ein bod wedi ei adolygu. Wedi gorffen adolygu'r strwythur, bydd gan yr adran staff a rheolwyr sydd yn gallu gweithio yn effeithiol ac yn gallu ymateb yn llawn i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r dull newydd o weithio.

Yn ystod 2015-16, rhoddwyd strwythur uwch reolaeth newydd mewn lle ac mae penodiadau wedi eu gwneud.

Erbyn Mawrth 2017, rhagwelir y bydd y prosiect wedi ei weithredu'n llawn ac wedi ail-strwythuro yr elfennau canlynol o'r adran:

- Rheolaeth Ganol – Ebrill 2016
- Strwythur ehangach – Rhagfyr 2016

Cost: Dim cost ychwanegol

### Rhaglen o brosiectau lletya a darpariaethau gofal

Pwrpas y rhaglen hon yw sicrhau fod gan bobl Gwynedd y ddarpariaeth llety a gofal mwyaf addas er mwyn cyfarch eu hanghenion i'r dyfodol, o fewn y cyfyngiadau adnoddau a'n bod fel Cyngor yn ymateb yn rhagweithiol i'r galw.

Erbyn diwedd y rhaglen bydd gan oedolion bregus Gwynedd yr ystod addas o ddewisiadau lletya a gofal a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau mor llawn a bodlon â phosib. Mae'r rhaglen hon wedi ei rhannu i nifer o brosiectau penodol, a gweler isod y prosiectau sydd yn weithredol yn bresennol.

Yn ystod 2015-16, llwyddwyd i gael cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn, a bydd hon nawr yn cael ei defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid allweddol.

Erbyn diwedd Mawrth 2017 bydd y prosiectau sydd o fewn y rhaglen ar hyn o bryd wedi cyflawni'r canlynol:

### G4 Tai Gofal Ychwanegol

Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.

Yn ystod 2015-16, llwyddwyd i weithio gyda'r partner allweddol i sicrhau bod y cytundeb ar gyfer adeiladu y datblygiad newydd wedi ei gadarnhau.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yn cyrraedd camau olaf y gwaith adeiladu gyda'r datblygiad newydd wedi ei raglennu i fod yn barod oddeutu cyfnod haf i hydref 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### G5 Frondeg

Pwrpas gwrieiddiol y prosiect yma oedd sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Yn Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Frondeg, a dod â defnydd presennol yr adeilad i ben unwaith y byddai'r datblygiad newydd ar gael.

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi cytuno ar bartner gweithredol e.e. cymdeithas tai, er mwyn cyd weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r model llety newydd. Rhagwelir y bydd y safle wedi ei drosglwyddo i'r partner hwnnw erbyn yr hydref 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### G6 Darpariaeth Fewnol

Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sydd yn darparu gwasanaeth gofal) yn ogystal â'r hyn rydym yn ei gyflawni a dechrau gweithredu ar hynny.

Yn ystod 2015-16, datblygwyd opsiynau dechreuol o ran y dyfodol. Y bwriad ydi y byddwn yn glir ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd Mawrth 2017.

Cost: Bydd angen ystyried yr angen am adnoddau ychwanegol unwaith y bydd penderfyniad ar ddyfodol y Gwasanaeth Darparu wedi ei wneud.

## G7 Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd

Pwrpas y prosiect newydd hwn yw ceisio ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hŷn yn benodol. Drwy gyflawni'r prosiect, ar y cyd gyda'n partneriaid iechyd, byddwn yn ceisio sicrhau fod gennym y gyfundrefn addas mewn lle ar draws y maes gofal ac iechyd i'r dyfodol.

Bydd y prosiect yn edrych ar agweddau o'r ddarpariaeth yn ogystal â'r angen o ran gweithlu a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr di-dâl).

- O ran y ddarpariaeth yn y maes pobl hyn gyda dementia, byddwn yn edrych, ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar opsiynau gallwn eu mabwysiadu i geisio ymateb i'r problemau presennol o ran argaeledd ac ansawdd gofal. Fel rhan o'r gwaith byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r prif ran-ddeiliaid ac yn derbyn arweiniad arbenigol gan arbenigwyr yn y maes gan gynnwys Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

  Erbyn Mawrth 2017, byddwn mewn sefyllfa i argymell ffordd ymlaen i'r Bwrdd Iechyd a'r Cabinet.

- O ran y gweithlu nyrsio a gofal, bydd y prosiect yn edrych i gytuno ar ymyraethau tymor byr a'r tymor hwy, ar y cyd gyda'r byrddau iechyd priodol, i geisio gwella y sefyllfa o ran adnabod a phenodi staff addas i weithio yn y meysydd gofal a gofal nyrsio yn lleol.

Byddwn yn gweithredu'r ymyraethau tymor byr yn ystod y flwyddyn fel maent yn cael eu cytuno, ac erbyn Mawrth 2017 wedi sefydlu rhaglen waith i gyfarch unrhyw ddatblygiadau mwy hir dymor.

Erbyn Mawrth 2017 byddwn hefyd wedi adolygu pa mor effeithiol yw ein trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl ac, os oes angen, wedi penderfynu ar yr ymyraethau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal gofalwyr i'r dyfodol.

Cost: Dim cost ychwanegol

| **Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd?** |
| --- |
| Fod pobl Gwynedd yn deall mwy o'r her sy'n wynebu'r maes Gofal, Iechyd a Llesiant Oedolion a sut allent gyfrannu.<br><br>Fod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gwneud yr hyn sy'n cyfri iddyn nhw.<br><br>Fod diwylliant staff wedi newid a'u bod yn defnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd i roi'r cwsmer yn gwbl ganolog. |

# Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion bregus yn hollbwysig er mwyn sicrhau fod pob unigolyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd a diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Er bod cynnydd da eisoes wedi ei wneud o ran trefniadau gwaith, roedd angen gwaith pellach er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a diwylliant o bwysigrwydd diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn treiddio i bob rhan o'r Cyngor. Dyma yw'r sefyllfa rydym wedi bod yn anelu tuag ati:

> **Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae holl drefniadau diogelu'r Cyngor yn gadarn, gyda thystiolaeth bendant bod staff ac aelodau'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r disgwyliadau. Rydym hefyd angen gweld tystiolaeth bod ein trefniadau yn cael effaith bositif ar y maes diogelu.
>
> **Rydym angen gwella perchnogaeth** aelodau a staff o'r maes diogelu, a gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.

Rydym wedi gweithredu tri phrosiect er mwyn ein galluogi i gyflawni hyn, ond bydd diogelu, wrth gwrs, yn faes blaenoriaeth parhaus i'r Cyngor hyd yn oed ar ôl cyflawni y prosiectau isod, a byddwn yn parhau i adolygu a monitro tu hwnt i gyfnod y Cynllun Strategol.

Dyma'r prosiectau sydd yn parhau ar waith eleni:

### D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu

Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.

Mae'r agenda hwn yn un parhaus ac felly byddwn yn parhau i geisio gwella perchnogaeth o'r maes hwn y tu hwnt i Fawrth 2017.

Dyma sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2015-16:

- Mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth wedi ei wneud, a bydd angen parhau gyda hyn fel rhan arferol o waith y Cyngor.
- Cyflawnwyd elfennau penodol i gryfhau gweithdrefnau adnoddau dynol, cwblhawyd yr awdit blynyddol ac adolygwyd polisïau adrannol a chorfforaethol yn unol â'r amserlen.

Yn ystod 2016-17 byddwn yn sicrhau fod trefniadau yn eu lle ar gyfer mesur effaith y trefniadau diogelu corfforaethol yn ogystal â pharhau gyda'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r maes diogelu.

Cost: Dim cost ychwanegol

## D2 Diogelu plant a phobl ifanc

Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a'r diwylliant diogelu o fewn y maes plant a phobl ifanc.

Yn ystod 2015-16, cynhaliwyd sesiynau penodol gyda arbenigwr yn y maes er mwyn edrych ar ein prosesau yng Ngwynedd. Yn benodol wedyn o fewn y maes addysg, datblygwyd y rhaglen waith, gweithredwyd y rhaglen hyfforddiant perthnasol i staff, a phenodwyd Swyddog Diogelu Plant er mwyn gyrru'r rhaglen waith yn ei blaen. O ran Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE), rydym wedi cyfrannu at waith rhanbarthol gan gychwyn y gwaith o ddeall mwy am y galw a thueddiadau yn ogystal â chytuno rhaglen waith ar gyfer 2016-17.

Erbyn diwedd Mawrth 2017 byddwn wedi:

Adolygu trefniadau'r Cyngor o ran ymateb i'r risg o Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) gan:

- Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd fynd â'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n aml asiantaethol
- Sicrhau fod y Cyngor, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth, a thueddiadau CSE yng Ngwynedd
- Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Cydnabod bod y risg yn uwch i blant mewn gofal a gweithio gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol ar geisio gwarchod y plant mwyaf bregus

Byddwn hefyd yn ystod 2016-17 yn cryfhau ymhellach weithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes addysg drwy:

- Gynnal yr awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion
- Greu rhaglen hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol
- Weithredu rhaglen waith yn unol ag argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella

Cost: Dim cost ychwanegol.

## D3 Diogelu oedolion bregus

Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.

Yn ystod 2015-16, llwyddwyd i gael trosolwg strategol o'r holl argymhellion sydd dan sylw yn adroddiadau 'Lle i'w Alw'n Gartref', Adroddiad Winterbourne ac Adroddiad Jasmine, gan greu rhaglen waith gynhwysfawr o'r gwelliannau. Cyflwynwyd hefyd adroddiad ansawdd ar Ofal Preswyl a Nyrsio i'r Cabinet yn ystod y flwyddyn.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, fe fydd y prosiect yn gweithredu'r rhaglen waith uchod, a thrwy hynny wedi sicrhau ein bod yn:

- Datblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed
- Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion
- Darparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus

Cost: Dim cost ychwanegol.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Fod Plant ac Oedolion bregus Gwynedd yn gwybod sut i leisio barn.<br><br>Fod Plant ac Oedolion bregus Gwynedd yn teimlo'n saff.<br><br>Fod Staff ac Aelodau Etholedig yn gwybod be i wneud o ran achosion diogelu.<br><br>Fod y canlyniadau yr Awdit blynyddol yn adlewyrchu cynnydd neu gostyngiad o ran effaith. |

# Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

Mae patrwm yr economi yng Ngwynedd yn dangos amrywiaeth o elfennau sydd yn dylanwadu ar sefyllfa ariannol pobl y sir. Rydym yn gwybod fod 39% o weithwyr y sir yn cael eu cyflogi yn y sector gyhoeddus, sydd yn cymharu â 35% yng Nghymru. Yn ogystal, mae dros 14,000 o fusnesau yng Ngwynedd, gyda 13,250 o'r rheini yn fusnesau sy'n cael eu disgrifio yn 'meicro', sef yn cyflogi 0-9 o bobl.

Mae tlodi mewn gwaith yn fater cynyddol bwysig yn genedlaethol a lleol gan gynnwys yn yr ardaloedd mwyaf gwledig. Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yn y sir, gyda chyflog wythnos cyfartalog i weithiwr llawn amser yn Nwyfor/Meirionnydd yn £389.20, sef yr isaf yng Nghymru a'r pumed isaf ym Mhrydain. Yn ychwanegol i hyn, mae Gwynedd yn bell o'r ardaloedd poblog, ac mae hyn yn ogystal â maint busnesau yn golygu eu bod yn ei chael yn anodd i gystadlu am fusnes.

Mae'r diffyg amrywiaeth economaidd yma yn rhwystr allweddol i bobl gael mynediad i'r farchnad dai, gyda 61% o aelwydydd y sir wedi eu prisio allan o'r farchnad a 1,993 o geisiadau wedi eu cofrestru ar restr aros am dŷ cymdeithasol.

Ein blaenoriaeth ar gyfer y maes felly yw;

- Gwella ansawdd swyddi a lefelau cyflog
- Cryfhau gwytnwch busnesau a chadw'r budd yn lleol
- Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau

Fel rhan o'n hymateb i hyn rydym yn aelod o Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a thrwy'n gwaith, yn dylanwadu ar y rhaglen waith er mwyn i bobl a busnesau Gwynedd allu elwa'n llawn o'r cyfleoedd rhanbarthol.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae gennym swyddi o ansawdd a lefelau cyflog da, busnesau cryf a chadarn a buddion contractau mawr yn cael eu cadw'n lleol. Rydym hefyd yn awyddus i weld effaith tlodi ar grwpiau ac ardaloedd daearyddol penodol wedi ei liniaru, a chynnydd mewn cyflenwad tai mewn ardaloedd o angen er mwyn i bobl gael mwy o ddewisiadau tai.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y flwyddyn nesaf:

### T1 Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd

Pwrpas y prosiect hwn yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn Gwynedd. Byddwn yn gwneud hyn trwy farchnata'r sir i sectorau penodol gwerth uchel a chefnogi busnesau i dyfu er mwyn creu swyddi gwerth uchel i drigolion yr ardal. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i lenwi bylchau sgiliau presennol a bwydo gwybodaeth am fwlch sgiliau o fewn sectorau sydd yn tyfu i sicrhau'r cyflenwad cywir o weithwyr.

Rydym eisoes wedi adnabod y sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel, sef Ynni, Digidol, Creadigol ac Ymchwil a Datblygu. Mae briff wedi ei ddatblygu ar gyfer creu pecyn o ddeunyddiau marchnata arloesol ar gyfer y sectorau, ac hefyd mae rhwydwaith busnesau o fewn y diwydiannau creadigol wedi cael ei sefydlu. Rydym yn cydweithio gyda Menter Môn a Phrifysgol Bangor i gynnig lleoliadau gwaith o fewn cwmnïau digidol lleol i israddedigion a disgyblion ysgol. Mae cynllun lobïo ar gyfer y safle Trawsfynydd a Llanbedr yn parhau i cael ei weithredu yn llwyddiannus.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd mwy o swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn y sir, ac erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Creu, a rhoi ar waith, becyn o ddeunyddiau marchnata arloesol, wedi'u targedu yn uniongyrchol at fusnesau o fewn y sectorau arwyddocaol
- Hwyluso creu a chynnal clystyrau busnes yn y sectorau penodol hynny
- Dylanwadu ar waith y Consortiwm ôl-16 i hyrwyddo'r hyn yr ydym yn ei ragweld fel "swyddi'r dyfodol" yn yr ardal
- Paratoi achos busnes ar gyfer rhaglen Llwyddo'n Lleol a thargedu adnoddau i'w weithredu er mwyn hyrwyddo mentergarwch yn y sector swyddi gwerth uchel
- Gweithredu ymgyrch benodol i dargedu buddsoddiad fydd yn creu swyddi o ansawdd yn ardal fenter Trawsfynydd/Llanbedr
- Cydweithio gyda Chyngor Ynys Môn ar raglenni Ynys Ynni er mwyn sicrhau budd i bobl Gwynedd o fuddsoddiad datblygu Wylfa newydd

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T2 Cadw'r budd yn lleol

Pwrpas y prosiect yw uchafu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol. Mae dwy agwedd i'r prosiect sef gosod trefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd yn y Cyngor a chefnogi busnesau i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt, yn cynnwys prosiectau cyfalaf a rhanbarthol. Yn ogystal byddwn yn uchafu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o drefn gaffael y Cyngor. Bydd pwyslais ar geisio datblygu rhwydwaith o gadwyni cyflenwi lleol trwy gydweithio gyda'r gymuned fusnes.

Rydym eisoes wedi adnabod rhwystrau i fynediad busnesau lleol i'r farchnad leol a byddwn yn gweithredu ar y canfyddiadau. Yn ogystal, rydym wedi dechrau sefydlu trefniadau ar gyfer prynu'n strategol er mwyn cadw'r budd yn lleol.

Erbyn diwedd y prosiect bydd cynnydd arwyddocaol yn y nifer o fusnesau sydd â'r ddealltwriaeth a'r gallu i ennill cytundebau'r Cyngor, ac erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Uchafu gwariant y Cyngor efo busnesau lleol
- Ffurfioli a chysoni prosesau caffael y Cyngor drwy fewnosod trefniadau prynu'n strategol (a elwir Rheolaeth Categori)

- Adeiladu ar ein trefniadau codi ymwybyddiaeth ar gyfleon i weithio gyda'r Cyngor trwy amryw ffyrdd, er enghraifft trwy wefan y Cyngor, cyfryngau cymdeithasol a'r wasg
- Darparu gwybodaeth a chynnig cymorth i ddarparwyr lleol ar sut i geisio am waith gyda'r Cyngor gan ystyried ceisiadau am unrhyw gymorth ychwanegol
- Darparu canllawiau a chefnogaeth i brynwyr y Cyngor ar sut i leihau rhwystrau mewn tendro
- Darparu canllawiau ar wneud ceisiadau ar y cyd neu ffurfio consortiwm gyda'r farchnad.

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T3 Gwynedd Digidol

Pwrpas y prosiect yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fandeang cyfoes ar draws y sir. Byddwn yn hyrwyddo'r cyfleoedd newydd ac yn annog a chefnogi unigolion a busnesau i fabwysiadu'r dechnoleg. Byddwn yn cefnogi busnesau i ennyn mantais o'r ddarpariaeth newydd a chefnogi cymunedau i fanteisio ar y dechnoleg newydd.

Rydym eisoes wedi sicrhau bod mwy na 60,000 o gartrefi a safleoedd busnes yng Ngwynedd yn gallu derbyn gwasanaeth bandeang cyflym. Rydym hefyd wedi llwyddo i adnewyddu gwasanaeth wi-fi am ddim mewn 40 o leoliadau cyhoeddus gan hefyd sicrhau fod Gwynedd yr unig ardal yng Nghymru, ac yn un o bedair ardal yn unig ledled Prydain, i fod yn rhan o raglen arloesol 'Gwytnwch Digidol' i leihau eithrio digidol ac annog defnyddio gwasanaethau digidol.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd busnesau a thrigolion y sir yn manteisio ar fandeang cyflym a'r budd mae'n ei gynnig, ac erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cynorthwyo cynllun Cyflymu Cymru yng Ngwynedd - ynghyd â phrosiectau atodol megis y grant Allwedd Bandeang Cymru - i ddarparu bandeang cyflym i bob cwr o Wynedd a hyrwyddo'r ddarpariaeth i sicrhau defnydd llawn ohono.
- Sefydlu cynllun lleol gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau i ddefnyddio a manteisio ar dechnoleg/bandeang cyflym
- Gweithredu'r rhaglen 'Gwytnwch Digidol' i gefnogi trigolion i ddefnyddio'r we i gael mynediad i wasanaethu a chynyddu gallu staff y Cyngor a sefydliadau cyhoeddus eraill yn lleol i gynnig cymorth parhaus.
- Gweithio gyda rhaglen 'Arloesi Gwynedd Wledig' i ddatblygu dulliau newydd i gymunedau (daearyddol ac o ddiddordeb) fanteisio ar dechnoleg a bandeang cyflym

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T4 Cynllun Arloesi Gwynedd Wledig

Pwrpas y prosiect yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar adeiladu ar gryfderau Gwynedd a byddwn yn cyfeirio ymdrech i'r ardaloedd mwyaf gwledig. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Arloesi Gwynedd

Wledig - LEADER Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd pellach drwy law'r Cynllun Datblygu Gwledig i ymateb i anghenion cymunedau gwledig Gwynedd. Bydd yn cael ei dargedu i ymateb i flaenoriaethau Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd a Chynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd.

Rydym eisoes wedi gweithredu Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd a datblygu Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd ar y cyd gydag aelodau lleol Dwyfor. Yn ogystal rydym wedi sicrhau fod £4m ar gael i ardal Gwynedd o elfen LEADER y Rhaglen Datblygu Gwledig. Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu dulliau arloesi newydd gan ymateb i anghenion Gwynedd wledig. Yn ogystal rydym wedi sefydlu trefn newydd ar gyfer Arloesi Gwynedd Wledig gan rannu adnoddau gweinyddol gydag Ynys Môn.

Erbyn diwedd y prosiect, byddwn wedi gweithio gyda'n partneriaid i sefydlu rhaglenni a phrosiectau ar draws yr ardaloedd gwledig.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Mabwysiadu Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd a rhaglen i'w gweithredu er mwyn diwallu anghenion yr ardal
- Sefydlu rhaglen LEADER yng Ngwynedd a'i gweithredu i gefnogi datblygiad mentrau gwledig
- Targedu adnoddau ehangach o'r Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru a ffynonellau eraill i gwrdd ag anghenion penodol Gwynedd wledig

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T5 Safle Treftadaeth y Byd

Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol ac yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth Byd i rannau o'r dyffrynnoedd llechi.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi gwerthusiad o'r budd economaidd allai ddeillio o'r broses enwebu a derbyn statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi. Rydym wedi datblygu a pharatoi cais am arian Ewropeaidd i weithredu rhaglen Glannau Menai gyda'r bwriad o ddatblygu statws yr ardal fel cyrchfan ranbarthol a rhyngwladol.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd safleoedd ar draws Gwynedd yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol a bydd y sir yn manteisio ar y budd economaidd fydd yn dod yn sgil hyn.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Llunio cais i UNESCO i ennill statws safle treftadaeth y byd i'r diwydiant llechi
- Paratoi rhaglen o ymyraethau gyda phartneriaid i hyrwyddo balchder a gwaith yn y cymunedau

- Cyflwyno cais am arian Ewropeaidd i ddatblygu rhaglen Glannau Menai gwerth £15miliwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol
- Cydweithio gyda CADW a phartneriaid i farchnata a hyrwyddo'r Safleoedd Treftadaeth Byd
- Cychwyn ar y gwaith o weithredu ar Rhaglen Adfywio Glannau a Chanol Tref Gaernarfon

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau

Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol trwy waith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu'r gwaith.

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau megis TRAC 11-16 sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 16 oed sydd wedi datgysylltu ag addysg, ac sydd fwyaf tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); TRAC 16-24 sy'n ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 16-24 oed sydd yn NEET a'u hannog yn ôl i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a chynllun OPUS sy'n gweithio gydag unigolion gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl sy'n economaidd anweithredol ac yn 25 oed neu drosodd er mwyn eu cael i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Er bod nifer o'r cynlluniau sydd ar y gweill yn y maes yma yn rhanbarthol eu natur, mae'n allweddol bod trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod grwpiau bregus o blant a phobl ifanc Gwynedd yn cael budd uniongyrchol ohonynt.

Rydym eisoes wedi sefydlu Grŵp Cyflogaeth Gwynedd er mwyn cydweithio a rhannu gwybodaeth ac ymarfer da ymysg y prosiectau. Rydym hefyd wedi sicrhau arian Ewrop ar gyfer rhoi TRAC 11-16 ar waith mewn ysgolion.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Gweithredu cynlluniau TRAC 11-16 a TRAC16-24 er lles grwpiau bregus o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd
- Gweithredu cynllun OPUS ar gyfer grwpiau bregus o oedolion yng Ngwynedd er mwyn eu cefnogi i gyflogaeth gynaliadwy
- Penodi mentoriaid i gefnogi pobl ifanc, er mwyn osgoi iddynt golli allan ar y cyfleoedd yn y farchnad lafur

Erbyn diwedd y prosiect bydd unigolion bregus yn cael eu cefnogi a'u hannog i mewn i fyd gwaith.

Cost: Dim cost ychwanegol

**T7 Digwyddiadau proffil uchel a strategol**

Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn. Byddwn yn gwneud hyn trwy sicrhau fod digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu neu eu sefydlu yng Ngwynedd. Byddwn hefyd yn cefnogi ardaloedd o fewn Gwynedd i ddatblygu digwyddiadau efo'r potensial i gyfrannu at y ddelwedd o fwrlwm a datblygu arbenigedd yr ardal ym maes trefnu a chynnal digwyddiadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc a mentrau lleol.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Gweithio law yn llaw a'r ddigwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd, a datblygu syniadau a phrosiectau penodol er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleon i fusnesau a trigolion Gwynedd
- Gweithio'n agos gyda Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth
- Gweithio gyda trefnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau trwy gynorthwyo neu gymryd rhan ynddynt

Cost: Dim cost ychwanegol

**T8 Cydymdrechu yn erbyn tlodi**

Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu Strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid gan roi ar waith ystod eang o gynlluniau. Bydd gweithredu'r Strategaeth yn cynnwys ymyraethau mewn pedwar maes, sef: Cynhwysiad Digidol (ar y cyd â Gwynedd Ddigidol a Citizens Online), Cynhwysiad Ariannol, Cynhwysiad Economaidd (ar y cyd â Phecyn Gwella Mynediad Pobl i Waith), ac Ymateb i Ddiwygio Lles.

Rydym eisoes wedi cynnal hyfforddiant llythrennedd ariannol ar gyfer staff budd-daliadau, treth Cyngor ac Adran Economi a Chymuned, er mwyn eu galluogi i roi arweiniad i rai sydd mewn angen. Rydym hefyd wedi cydweithio efo banciau er mwyn cynnig sesiynau codi ymwybyddiaeth materion ariannol. Mae Grŵp Gwytnwch Digidol Gwynedd wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn cydweithio.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Sefydlu trefn bartneriaethol ar gyfer yr Agenda Trechu Tlodi yng Ngwynedd
- Mabwysiadu Strategaeth Trechu Tlodi Tymor Hir
- Cytuno ar raglen waith gyda phartneriaid
- Hyfforddi Staff Rheng Flaen mewn llythrennedd ariannol a digidol
- Parhau i weithredu'r gronfa Tâl Ddewisol Tai er mwyn cefnogi teuluoedd i osgoi mynd i ddyled oherwydd y dreth llofftydd
- Darparu "Gwasanaethau Cymorth Lleol" newydd i gefnogi hawlwyr y Credyd Cynhwysol
- Sicrhau cyngor arbenigol i hawlwyr budd-daliadau mewn lleoliadau hanesyddol dirwasgedig yn ardaloedd Caernarfon, Bangor a Thalysarn (hyd at Fawrth 2016)
- Datblygu a gweithredu pecyn o gynlluniau i gefnogi grwpiau bregus o bobl ifanc fel eu bod yn cael mynediad i gyfleon gwaith

Cost:  Dim cost ychwanegol.

## T9 Strategaeth Cyflenwad Tai

Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.  Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.

Yn ystod 2015-16, cymeradwywyd achos busnes Model Ariannu Tai Fforddiadwy sydd yn cynnwys pedwar prif gynllun sef:

- Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig
- Tai gwag yn ôl i ddefnydd
- Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref
- Darpariaeth i bobl hŷn sy'n hybu annibyniaeth

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Sefydlu'r model ariannu er mwyn cynyddu'r tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, a rhagwelir y byddwn wedi dechrau adeiladu cyfanswm o 31 cartref newydd i drigolion yn ystod 2017-18.
- Byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu rhwng 10-15 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd, sydd yn ychwanegol i'r cyfanswm blynyddol o 40 i 50 uned
- Rhagwelir y bydd angen gwneud gwaith pellach yn ystod 2016-17 cyn cychwyn gweithredu ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer pobl di-gartref.
- Byddwn wedi adnabod yr ardal lle mae angen darpariaeth i bobl hŷn, a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen.  Bydd yr argymhellion a gyflwynwyd fel rhan o'r Strategaeth Letya Pobl Hyn yn cael eu gweithredu o fewn y gwaith hyn yn ogystal ag unrhyw argymhellion o brosiect Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd (G8).

Cost: Dim cost ychwanegol.

| **Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd?** |
| --- |
| Bydd trigolion yn fwy hysbys o'r cyfleoedd gwaith sy'n bodoli rŵan ac i'r dyfodol.<br><br>Bydd gan gyflogwyr berthynas dda gyda'r sefydliadau addysg er mwyn hwyluso llwybrau at waith. |

# Y Gymraeg

Mae Gwynedd wedi bod yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg erioed, ond gwelwyd gostyngiad graddol yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd gostyngiad o -846 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, sef -3.5% o'i gymharu gyda Chyfrifiad 2001.

Mae yna bocedi o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth Gymraeg ymysg trigolion, ynghyd â diffyg defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Mae diffyg hyder ymysg rhai trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau, ac mae anghysondeb mewn darpariaeth gwasanaethau dwyieithog ar draws y sir. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yng nghyd-destun Safonau Iaith y Comisiynydd Iaith.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae Gwynedd yn parhau yn gadarnle i'r iaith, a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu ond byddwn hefyd yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r arbenigwyr ym maes cynllunio ieithyddol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau wneith arwain at y canlyniadau yr ydym yn ymgeisio atynt:

### I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg

Pwrpas y prosiect hwn yw hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned i weithredu'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.

Yn ystod 2015-16 mae'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol wedi ei chwblhau ar gyfer cymunedau Bangor, Porthmadog a Dolgellau a chynlluniau gweithredu wedi eu cynhyrchu. Yn ogystal, mae cyfleoedd i rymuso'r gymuned wedi eu hadnabod ac yn weithredol ym Mhwllheli.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cefnogi trigolion yn y pedair cymuned i lunio a chyflawni eu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ganfyddiadau'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol

Cost: Cyllidir drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

### I2 Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus

Pwrpas y gwaith hwn fydd cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gydag aelodau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.

Bydd hefyd yn gyfrwng i gefnogi'r dyletswydd fydd ar gyrff cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf i gydymffurfio efo'r Safonau Iaith a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn ategu'r gofynion fydd ynghlwm â'r fframwaith ddilynol i *Mwy na Geiriau*.

Yn ystod 2015-16, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i flaenoriaethu'r gwaith yma sy'n golygu y bydd y partneriaid allweddol yn cydweithio gyda ni i gyrraedd y nod. Rhagwelir erbyn diwedd Mawrth 2017 y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cytuno'r rhaglen waith i wireddu hyn gan ddechrau gweithredu arno.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### 13 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd. Drwy ddefnyddio'r un dulliau i fesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg phobl ifanc, a pharatoi strategaeth fydd yn rhoi arweiniad clir i ysgolion uwchradd Gwynedd ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth gobeithir gallu gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc.

Yn ystod 2015-16 rydym wedi defnyddio dull safonol y gwe iaith i osod gwaelodlin ar gyfer y defnydd y Gymraeg ymysg disgyblion Blwyddyn 7 ysgolion uwchradd Gwynedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd strategaeth wedi ei llunio a'i chymeradwyo fydd yn gosod cynllun clir ar gyfer ehangu defnydd o'r gwe iaith a chynllunio ymyrraeth ar sail ei ganfyddiadau.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### 14 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd

Dros y blynyddoedd, mae polisi iaith Cyngor Gwynedd wedi bod yn arf effeithiol i sicrhau statws briodol i'r iaith o fewn y sector gyhoeddus ac yn ehangach. Serch hynny, mae angen i ni sicrhau fod y polisi hwnnw yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y Cyngor.

Mae dau bwrpas i'r prosiect hwn:

Yn gyntaf, bydd yn ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion Gwynedd.

Yn ail, bydd yn cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y Sir. Bydd yn edrych ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn uniongyrchol, yn ogystal â gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy drefniadau a chytundebau trydydd parti.

Bydd y gwaith hwn yn gyd-destun ac yn sylfaen gadarn ar gyfer y Safonau Iaith y bydd y Cyngor yn atebol am eu gweithredu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac a ddaeth i rym yn ystod 2015-16.

Yn ystod 2015-16 rydym wedi cynnal awdit o ddefnydd y Gymraeg gyda holl adrannau'r Cyngor. Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi datblygu a gweithredu rhaglen waith gadarn mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil, gan sicrhau ein bod yn cau unrhyw fwlch a bod holl wasanaethau'r Cyngor yn atebol ac yn rhagweithiol yn hyrwyddo'r Gymraeg.

Cost: Byddwn yn cyflawni'r gwaith o fewn yr adnoddau presennol.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Ar ôl cyflawni'r prosiectau o fewn y maes hwn bydd:<br>Mwy o blant a phobl ifanc Gwynedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br><br>Mwy o blant a phobl ifanc Gwynedd â gwell ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth.<br><br>Mwy o bobl Gwynedd (mewn 4 cymuned) wedi eu grymuso i gynllunio'n ieithyddol.<br><br>Mwy o bobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Gwasanaethau'r Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg trigolion, a thrigolion yn manteisio ar y cyfleoedd hynny i ddefnyddio'r Gymraeg. |

# Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Oherwydd y peryglon sy'n codi yn sgîl y sefyllfa ariannol heriol bresennol, mae'n fwy hanfodol nag erioed i'r Cyngor wneud yn siwr fod ganddo'r gallu i ymateb i anghenion pobl Gwynedd nawr ac i'r dyfodol. Mae hynny'n golygu gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd gennym, e.e. arian a staff, gwneud yn siwr nad oes gennym brosesau gwastraffus a diangen, a gwybod beth mae pobl Gwynedd yn ei ddweud wrthym ynglyn â sut rydym yn ymateb i'w hanghenion.

Yr egwyddor allweddol i hyn yw rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Yn ogystal â gwrando ar farn a sylwadau pobl, fe all hyn hefyd olygu bod yn agored i feddwl am fodelau newydd o ddarparu gwasanaeth, e.e. cydweithio gydag awdurdodau eraill, gweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, gweithio gyda gweddill awdurdodau Gogledd Cymru, neu weithio i allanoli neu fewnoli gwasanaethau, h.y. beth bynnag fydd yn gweithio orau i bobl Gwynedd.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle y bydd trefniadau gwaith y Cyngor yn hwyluso cyflawni yn hytrach na chynnal proses ac y bydd meddylfryd holl staff y Cyngor yn edrych drwy lygaid ein dinesydd.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y flwyddyn nesaf:

### C1 Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

Nid yw sicrhau diwylliant cyson am ddigwydd ar ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.

Drwy wneud hyn byddwn yn sicrhau fod pob uned gwasanaeth o fewn y Cyngor yn rhoi bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried dulliau amgen o weithredu (gan gynnwys cydweithio ag eraill) gan fesur y syniadau hynny yn ôl un llinyn mesur yn unig – sef i ba raddau y mae'n cynyddu'r budd i bobl Gwynedd.

Yn ystod 2015-16 rydym wedi llunio rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle, ac wedi penodi swyddog ychwanegol i yrru'r gyfundrefn ac wedi hyfforddi a sicrhau cytundeb i ryddhau tri uwch swyddog i weithio ar y prosiect. Erbyn hyn mae saith o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith o fewn y Cyngor.

Erbyn diwedd y prosiect (Mawrth 2019), bydd 31 o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal a diwylliant y Cyngor wedi newid yn sylweddol o'r herwydd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cwblhau 12 adolygiad gwasanaeth a hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr y Cyngor.

Cost: Gellir cwblhau 31 adolygiad erbyn diwedd 2018-19 gyda'r adnodd sydd eisoes wedi ei neilltuo.

### C2 Rhaglen datblygu arweinwyr

Os am sicrhau fod y gweithlu yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog yn gyson mae'n rhaid i arweinwyr y Cyngor hefyd fod yn annog y fath ddiwylliant.

Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei lle i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.

Yn ystod 2015-16 llwyddwyd i sefydlu trefn werthuso newydd ar gyfer aelodau o'r tîm rheoli a'r penaethiaid, a chynhaliwyd y cylch cyntaf o gyfweliadau. Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cynnal rhaglen o ddatblygiad personol ar gyfer pob aelod o Grŵp Rheoli'r Cyngor a'r Cabinet a fydd yn eu harfogi i arwain ac atgyfnerthu'r diwylliant gwaith o fewn y Cyngor.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### C3 Ymgysylltu

Mae sicrhau ein bod yn cwrdd â gwir anghenion ein trigolion yn golygu fod angen trefniadau ymgysylltu effeithiol a chyson, a phwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor

Yn ystod 2015-16, lluniwyd strategaeth ymgysylltu a llwyddwyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth gorfforaethol sydd ar gael i gefnogi gwaith ymgysylltu ac i adolygu'r Llawlyfr Ymgysylltu. Yn ogystal, fe gynhaliwyd cyfres o ymgyrchoedd dan faner Her Gwynedd i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd ar y toriadau arfaethedig.

Bydd y rhaglen waith sydd ynghlwm â'r strategaeth yn:

- Rhoi hyfforddiant i staff ac aelodau yn y maes
- Sicrhau cytundeb ar sut i ymestyn y defnydd o lwyfannau cyfathrebu ac ymgysylltu newydd megis gwefannau cymdeithasol
- Adolygu a diwygio deunyddiau ymgysylltu'r Cyngor
- Ymateb yn lleol i argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ein trefniadau ymgysylltu
- Adolygu rôl a bodlonrwydd aelodau ar drefniadau ymgysylltu

Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad

Os am sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion ein trigolion, mae'n rhaid hefyd sicrhau fod gennym drefn effeithiol ar gyfer mesur a ydym yn gwneud hynny a bod yn atebol amdano.

Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad. Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.

Yn ystod 2015-16, llwyddwyd i sefydlu cyfundrefn newydd ac mae adrannau'r Cyngor wedi dechrau gweithredu y gyfundrefn berfformiad newydd gan adnabod pwrpasau a mesurau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017 bydd y gyfundrefn yn llwyr weithredol trwy'r Cyngor a bydd gennym sicrwydd ein bod yn mesur a monitro y pethau priodol.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### C5 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth

Ar adeg o gyfyngiadau ariannol, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion trigolion yn effeithiol ond yn y modd mwyaf effeithlon.

Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol. Bydd y datblygiad hwn, ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, yn darparu mynediad i hyd at 38 gwasanaeth trwy gyfrwng y sianel digidol.

Yn ystod 2015-16, mae gwaith wedi ei gomisiynu i edrych ar y sylfaen dechnegol i'w defnyddio fydd yn gosod sail ar gyfer yr achos busnes i gyfuno sianeli cyswllt. Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cyflawni cam cyntaf y datblygiad ac wedi creu/archebu system graidd ar gyfer cofnodi a hwyluso mynediad at wasanaethau'r Cyngor.

Cost: O sicrhau ei fod yn cyfarch anghenion pobl Gwynedd, bydd y prosiect yn darparu arbedion i'r Cyngor o'i weithredu yn llawn ond bydd maint yr arbedion blynyddol yn ddibynnol ar y system gaiff ei chreu/archebu. Bydd angen buddsoddi arian cyn y gellir gwireddu'r arbediad. Amcangyfrifir y bydd angen clustnodi lleiafswm o £200,000 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd ond bydd yr union gost yn ddibynnol ar ba fath o system a fabwysiedir ar gyfer dibenion hunan wasanaeth a'r ymdrech fydd ynghlwm â'i sefydlu.

### C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)

Mae Technoleg Gwybodaeth yn arf pwysig i sicrhau fod gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon, a phwrpas y prosiect hwn yw gweithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a luniwyd yn 2016. Mae'n gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod i ddod ar gyfer uchafu'r budd a geir o ddefnyddio'r arf yma ynghyd a'r rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno.

Cost: Bydd y gost yn ddibynnol ar gynnwys y strategaeth.

### C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)

Pwrpas y prosiect hwn yw hyrwyddo effeithlonrwydd drwy sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol a lleihau'r defnydd o bapur. Bydd y system yn storio a rheoli mynediad i holl ddogfennau electronig. Bydd hefyd yn hwyluso cynlluniau arbedion drwy alluogi staff i arbed amser.

Yn ystod 2015-16 rydym wedi sefydlu a chytuno'r achos busnes ac wedi dechrau datblygu system ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electronig. Rydym wedi cyflwyno'r system i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ac i'r Adran Economi a Chymuned.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd o leiaf pump o adrannau'r Cyngor yn defnyddio system EDRMS gan hefyd gyflawni arbedion blynyddol o £201,000 y flwyddyn.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### C8 Llywodraethu gwybodaeth

Mae gwybodaeth yn adnodd hanfodol a gwerthfawr i'n holl weithgareddau ac mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein trefniadau gwaith yn ei gadw'n ddiogel.

Tra bod gennym drefniadau perthnasol i sicrhau ei fod yn ddiogel gyda threfniadau hyfforddiant priodol, pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn llwyr effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.

Yn ystod 2015-16 rydym wedi adolygu'r drefn hyfforddi gan gynnal rhai sesiynau hyfforddi gyda thimau mewn ffordd wahanol.

Erbyn diwedd 2017, byddwn wedi asesu priodoldeb ein trefniadau diogelu gwybodaeth (gan gynnwys effeithiolrwydd ein trefniadau hyfforddiant) gan gyfathrebu a chyflwyno polisi diogelu data i staff, cyflwyno trefniadau hyfforddiant newydd a chyflwyno trefniadau archwilio er mwyn gwreiddio egwyddorion diogelu gwybodaeth drwy'r holl sefydliad.

| **Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd?** |
| --- |
| Gwasanaethau yn gallu dangos eu bod wedi deall ac yn ymateb i'r hyn sydd yn bwysig i bobl Gwynedd.<br><br>Gwell ymwybyddiaeth o'r her ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu.<br><br>Mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. |

# Cynllunio Ariannol

Y cyd-destun i'r cynllun strategol yma yw'r gostyngiadau digynsail yn y grantiau gan Lywodraeth Cymru i llywodraeth leol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf a'r gofynion cynyddol sydd ar ein gwasanaethau oherwydd galw ychwanegol, gofynion polisi'r Llywodraeth, ac effaith chwyddiant. Yn 2014-15 gwelwyd gostyngiad o 4.4% yn yr arian a dderbyniodd y Cyngor mewn grant gan y Llywodraeth ym Mae Caerdydd, yn 2015-16 gostyngiad o 4.0% ac yn 2016-17 gostyngiad o 1.5%, sy'n gyfystyr â cholled o £8.07m, £6.96m a £2.61m fesul blwyddyn. Rydym felly mewn sefyllfa lle byddwn yn wynebu gwario mwy na'r incwm sydd ar gael dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Er mwyn cynnal gwasanaethau allweddol i'r dyfodol, rhaid wynebu'r her a gwneud penderfyniadau anodd. Mae'r rhagolygon yn dangos fod y bwlch hyn am gynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd i ddod, a dros y cyfnod 2016-17 – 2019-20 y gallasai fod gymaint â £44m cyn codiadau treth cyngor ac arbedion. Er byddwn yn wynebu sefyllfa anodd dros ben am gyfnod estynedig, mae'r Cyngor yn benderfynol o beidio gadael i hynny weithredu fel esgus i beidio â cheisio gwella pethau i bobl Gwynedd.

Ar yr un pryd, rhaid inni barhau i sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae'n bwysig fod effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd yn cael ei gadw i'r lleiafswm lleiaf posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth.

Ar sail yr wybodaeth sydd gennym, rydym wedi rhagweld be allwn ei wynebu, ac wedi ystyried sut byddwn yn dygymod â sefyllfa o'r fath, ac mae'r tafluniad ar gyfer y bedair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig o'r hyn a allai ein taro, ac yn nodi'r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a'u gwireddu. Dylid nodi y gallai'r amcangyfrifon hyn newid dros amser.

**Cyllideb 2016-17 – 2019-20**

| | **2016-17 £'000** | **2017-18 £'000** | **2018-19 £'000** | **2019-20 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl Defnydd Balansau | 2,019 | | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,261 | 8,220 | 6,631 | 7,486 |
| Gostyngiad Grant Cyffredinol | 1,322 | 2,100 | 3,100 | 2,900 |
| Codi'r Dreth Cyngor | - 2,141 | - 2,220 | - 2,302 | - 2,387 |
| **Bwlch** | 11,461 | 8,100 | 7,429 | 7,999 |
| Arbedion Cyfredol | - 3,090 | - 3,947 | - 130 | - |
| Arbedion Ysgolion | - 2,095 | - 990 | - 263 | |
| Arbedion Ychwanegol | - 1,240 | - 2,692 | - 1,009 | - 2,315 |
| Y balans o'r bwlch = **Toriadau'r flwyddyn** | 5,036 | 471 | 6,027 | 5,684 |
| Toriadau'r flwyddyn ganlynol | 471 | | 5,684 | |
| **Toriadau'r 2 flynedd** (strategaeth 2 + 2) | **5,507** | | 11,711 | |

Dros y cyfnod 2016-17 – 2017-18 byddwn yn darganfod y bwlch ariannol sy'n weddill, sef £5.5m o doriadau, ar ôl adnabod arbedion effeithlonrwydd gwerth £21m ers 2015-16. Wedi hynny, (erbyn 2018-19 – 2019-20) byddwn yn cadw'r holl opsiynau yn agored (gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth Cyngor yn uwch na 3.5% a darganfod arbedion o gyllidebau'r ysgolion). Mae'n egwyddor pwysig fod y Cyngor yn uchafu'r arbedion effeithlonrwydd, h.y. cynnal gwasanaethau gyda llai o adnoddau, heb gael effaith ar bobl Gwynedd. Ymhellach, lle mae'n rhaid gwneud toriadau i wasanaethau, mae angen i'r rheini gael eu gwneud yn y meysydd sy'n cael y lleiaf o effaith ar bobl Gwynedd.

Bydd modd cyflawni nifer o'r cynlluniau a nodir yn y Cynllun Strategol drwy ddefnyddio adnoddau presennol, ond ar gyfer rhai ohonynt bydd angen buddsoddi er mwyn cyflawni'r uchelgais dan sylw.

**Er gwaethaf y lleihad llym yn incwm grant y Cyngor, rydym yn symud tuag at sefyllfa** lle mae gennym gyllideb gytbwys gynaliadwy, tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer pobl Gwynedd.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

**CA1 Gwireddu arbedion**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £21.7m (sef pecyn arbedion effeithlonrwydd 2015 – 2018) (bydd y swm hyn angen ei adolygu yn sgil cyflwyno y Strategaeth Ariannol newydd) sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir boed yn arbedion effeithlonrwydd neu doriadau.

Yn ystod 2015/16 rydym wedi llwyddo i gynaeafu arbedion o £7.3m. Erbyn diwedd Mawrth 2017, rhagwelir y byddwn wedi gwireddu yr arbedion a gafodd eu cynllunio ar gyfer y cyfnod.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**CA2 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**

Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen gan gynnwys ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.

Yn ystod 2015-16, mae gwaith wedi mynd rhagddo i ddarganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu gyda gwaith manylach i ddatblygu modelau amgen yn digwydd mewn 3 maes penodol. Mae yna restr fer o bosibiliadau effeithlonrwydd a adnabuwyd gwerth tua £9m wedi eu hadnabod.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi miniogi'r syniadau gan adnabod cynlluniau caled i'w gweithredu i gyfarch yr angen am £6m pellach o arbedion effeithlonrwydd.

Cost: Dim cost ychwanegol.

# Cyflawni'r Cynllun

Mae cyflawni'r cynllun yn flaenoriaeth bwysig ynddo'i hun. Rydym wedi rhoi trefniadau priodol mewn lle ar bob lefel o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni'r cynllun ac mae gan bawb ran bwysig i'w chwarae yn hynny.

Y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am fabwysiadu'r Cynllun Strategol a gosod y cyfeiriad i waith y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd **Aelodau Cabinet y Cyngor** yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Strategol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb ac yn sicrhau fod trefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad cadarn mewn lle er mwyn cyflawni'r hyn rydym yn mynd i'w wneud.

Bydd y **Pwyllgorau Craffu** yn dal yr Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad o safbwynt cyflawni a byddant hefyd yn craffu effaith y cynllun ar drigolion Gwynedd.

Bydd y **Cyngor** yn parhau i gydweithio gyda'i bartneriaid yn y sector gyhoeddus, trydydd sector a sector breifat i wireddu blaenoriaethau sydd angen mewnbwn gan fwy nag un partner i'w cyflawni.

Fel rhan o'n ymrywmiad i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, byddwn yn ymgysylltu'n barhaus gyda thrigolion a chymunedau er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar waith y Cyngor a'u grymuso i gymryd perchnogaeh a chyfrifoldeb o'r dyfodol.